

**Urddas a Gofal Hanfodol
Arolygiad (Dirybudd)**
● **Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan: Ysbyty
Ystrad Fawr, Ward Rhymini**

20 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau.....	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Hanfodion Gofal	6
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	12
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	15
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd o Ward Rhymni yn Ysbyty Ystrad Fawr, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 20 Ionawr 2015.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth gan nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau ag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Hydref 2009 ac mae'n cynnwys ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd yn gwasanaethu poblogaeth o dros 600,000.

Mae Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach, rhwng Heol A469 Caerffili i Drecelyn a'r hen Heol Caerffili rhwng Ystrad Mynach a Llanbradach. Fe'i hagerwyd yn 2011 ac mae wedi cymryd lle Ysbyty'r Glowyr Caerffili, Ysbyty Ystrad Mynach, Uned Iechyd Meddwl Tŷ Sirhywi ac ysbytai cymunedol llai yn yr ardal.

Mae gan yr ysbyty 269 o welyau; mae pob un yn ystafell wely sengl *en-suite*. Mae hefyd gan yr ysbyty uned mân anafiadau wedi'i harwain gan nyrsys mewn canolfan frys leol 24 awr, uned iechyd meddwl gyfunol, ac mae'n darparu llawfeddygaeth ddydd, diagnosteg gynhwysfawr a gwasanaethau therapi a gwasanaethau i gleifion allanol.

Mae Ward Rhymni yn uned llawfeddygaeth ddydd sy'n cynnwys 26 o welyau (14 o gilfannau troli a 12 o ystafelloedd gwely unigol). Mae'n arbenigo mewn orthopedeg, gynaeceleg, wroleg a llawfeddygaeth gyffredinol. Mae'n uned ryddhau wedi'i harwain gan nyrsys sy'n golygu bod y meddygon llawfeddygol yn cofnodi'r gofynion ôl-driniaethol ar gyfer pob claf unigol ar siart; yna, bydd y protocolau nyrs yn arwain y gofal hyd at ryddhau claf o'r ysbyty.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd 16 o gleifion ar y ward. Roedd deuddeg o gleifion yn dderbyniadau newydd a oedd yn derbyn llawfeddygaeth ar yr un diwrnod, ac roedd y pedwar claf arall wedi derbyn llawfeddygaeth y diwrnod cynt ac roeddent yn gwella. Roedd digon o staff nyrsio i gwrdd ag anghenion y cleifion yn eu gofal.

4. Crynodeb

Oherwydd hyd arhosiad byr ar y ward hon a natur annibynnol y cleifion, nid ydym wedi gwneud sylwadau ar nifer o feysydd yn adran *Cyflenwi Hanfodion Gofal* yr adroddiad hwn gan nad ydynt yn berthnasol ar yr achlysur hwn. Ar y cyfan mae safon y gofal ac ymarweddiad y staff yn dda iawn. Roedd y bobl yn teimlo bod ansawdd eu profiad yn ystod eu hamser ar y ward yn dda ac roeddent yn llawn canmoliaeth am bob agwedd ar eu harhosiad.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y ward yn cwrdd â'r safonau o ran 'Hanfodion Gofal'¹. Er bod mân feysydd i'w gwella, roedd hefyd meysydd o ddyfeisgarwch a gwelwyd arferion da.

Gallai'r bobl deimlo'n hyderus y byddant yn cael eu hysbysu ar lafar a bydd y staff yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig iddynt am eu gofal a'u triniaeth. Roedd y cynllunio'n dda iawn ac roedd y ddogfennaeth yn adlewyrchu'r safonau gofal da a roddwyd ar y ward. Gwelsom fod gofal nyrsio'n cael ei roi â thosturi ac empathi i gleifion.

Roedd cleifion yn cael eu hannog ac yn derbyn cymorth i adennill annibyniaeth cyn gynted â phosibl, gan ystyried gallu corfforol a meddyliol unigol. Roedd amgylchedd y ward yn ffafriol ar gyfer gorffwys a chysur y cleifion gan gynnwys ystafelloedd gwely unigol a chyfleusterau *en-suite*.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gyfforddus ac yn rhydd rhag poen, fodd bynnag, nid oedd y ward yn defnyddio graddfa mesur poen ar gyfer pob claf. Roeddem yn fodlon bod pobl yn derbyn digon o faeth a dŵr.

Gall y cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ar adeg yr arolygiad yn ôl pob golwg. Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth effeithiol a gwaith tîm da. Roedd y staff nyrsio'n bodloni'r safonau gofynnol ac roedd y staff yn deall sut i drosglwyddo problemau i lefel uwch pe baent yn codi.

Roedd diogelwch a lles y cleifion yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn. Roedd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio ystod o asesiadau risg, creu amgylchedd diogel ar y ward a darparu cyfarpar glân sydd wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

¹ *Yr Hanfodion Gofal*, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Ar y cyfan, mae safon y gofal ac ymarweddiad y staff yn dda iawn. Mae'r bobl yn teimlo bod ansawdd eu profiad yn ystod eu hamser ar y ward yn dda ac roeddent yn llawn canmoliaeth am bob agwedd ar eu harhosiad.

Gwnaethom ddsbarthu holiaduron yn ystod yr arolygiad, fodd bynnag ni ddychwelwyd yr un ohonynt. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â phob claf a oedd ar yr uned ar y diwrnod. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo y caiff eu hurddas a'u preifatrwydd eu parchu yn ystod eu harhosiad. Dywedwyd wrthym a gwelsom fod y staff yn barod eu cymorth, yn foengar a'u bod yn esbonio gweithdrefnau a meddyginiaeth er mwyn i gleifion fod yn ymwybodol o driniaethau a chynlluniau rhyddhau disgwylidig. Roedd y staff hefyd yn sicrhau bod y drysau ar gau neu eu bod yn cymryd y cleifion i ystafell breifat wrth drafod manylion personol.

Roedd pawb yn cytuno'n gryf bod y ward yn lân, gan wneud sylwadau megis:

"Mae'r glanhau'n drylwyr iawn."

"Mae'r glendid o safon uchel."

Cytunodd pob claf yn gryf eu bod yn fodlon ar y gofal, cymorth ac agweddau'r staff nyrsio. Cafwyd y sylwadau canlynol i ategu eu barn;

"Mae'r nyrsys yn fendigedig, ni fyddech chi'n gallu dymuno am well na hyn."

"Mae'r staff yn gweithio'n galed iawn ac maent yn gwneud jobyn gwych."

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ar y gofal maent wedi ei dderbyn yn gyffredinol, heb eithriad, roedd pob claf wedi dweud eu bod yn fodlon iawn ar y safonau gofal ac ar y driniaeth yr oeddent wedi'u derbyn.

Nid oedd unrhyw ffonau ar gyfer y bobl i wneud galwadau ffôn preifat. Fodd bynnag, dywedodd y staff fod y cleifion naill ai'n gallu defnyddio'u ffonau symudol eu hunain neu'n gallu defnyddio ffôn y ward.

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Ar y cyfan, gwelsom fod y ward yn cwrdd â'r safonau o ran 'Hanfodion Gofal'. Er bod mân feysydd i'w gwella, roedd hefyd meysydd o ddyfeisgarwch a gwelwyd arferion da.

Cyfathrebu a gwybodaeth

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion.

Gallai'r bobl deimlo'n hyderus eu bod yn cael eu hysbysu am eu gofal ar lafar a bydd yn staff yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig iddynt am eu gofal a'u triniaeth. Roedd y cynllunio'n dda iawn ac roedd y ddogfennaeth yn adlewyrchu'r safonau gofal da a roddwyd ar y ward.

Gwelsom aelodau o staff yn cyfathrebu'n briodol ac yn cefnogi pobl yn ystod eu harhosiad ar y ward. Mae hyn yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu.

Gwnaethom arsylwi ar ryngweithio rhwng aelodau o staff a chleifion a oedd yn unol â safon ofynnol yr 'Hanfodion Gofal'. Cadarnhaodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, eu bod yn teimlo bod y staff yn eu hysbysu'n dda ynghylch eu gofal a'u triniaeth. Cadarnhawyd hyn gan y taflenni ychwanegol y gwnaethom eu darllen a roddwyd i gleifion ac a oedd yn esbonio gweithdrefnau penodol.

Gwelsom fod y bobl yn derbyn gwybodaeth am eu gofal mewn iaith a ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion. Er enghraifft, gwelsom staff meddygol a nyrsio'n siarad â phobl naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg, mewn modd ystyriol a digynnwrf. Dywedodd y staff fod dolen sain ar y ward i gynorthwyo cleifion ag anawsterau clywed a dywedwyd wrthym am y llinellau dehongli y gallai'r staff eu defnyddio ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.

Ar y cyfan, gwelsom fod safon y ddogfennaeth yn dda a bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ysgrifennwyd yn adlewyrchu'r gofal a roddwyd. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd y gellid eu gwella, megis:

- Nid oedd llofnodion na dyddiadau ar rai o'r dogfennau megis rhestr wirio'r theatr, rhai asesiadau risg a chynlluniau gofal.
- Nid oedd y ddogfennaeth codi a chario yn cynnwys y ddogfennaeth gydnabyddedig gyfredol ar gyfer Cymru Gyfan. Nid oedd asesiadau

bob amser yn cael eu hadolygu ar ôl llawdriniaeth pan nad oedd modd i'r claf symud gymaint.

- Roedd rhai o'r dogfennau yn cynnwys y teitlau anghywir, sef Ymddiriedolaeth GIG Gwent.
- Roedd ansawdd llungopiau o siartiau gwag/dogfennau yn wael.

Argymhelliad

Dylai rheolwr y ward ddatblygu system i archwilio dogfennaeth y cleifion i sicrhau bod yr ansawdd a'r safonau'n foddhaol.

Gwelsom hefyd enghreifftiau o ofal wedi'u dogfennu'n dda iawn gan ddefnyddio ffurflenni safonol megis y siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ², sy'n nodi unrhyw newidiadau yng nghyflwr y claf. Yn ogystal â hyn, roedd llyfryn cofnodion cleifion sy'n cofnodi triniaeth y claf o'r cam cyn-asesu, yn y clinig cleifion allanol, wrth dderbyn triniaeth a chael ei ryddhau yn cael ei ddefnyddio'n ddyfeisgar. Roedd y wybodaeth hon a oedd yn cofnodi'r asesiad cychwynol (hyd at dri mis yn flaenorol), yn cael ei hadolygu yn ystod y broses dderbyn ar ddiwrnod y llawfeddygaeth ac mae'n dilyn prosesau'r claf, o'r theatr hyd at ei ryddhau. Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau rhyddhau da yn y llyfryn cofnodion cleifion.

Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal ôl-llawdriniaethol y cleifion a gweld bod achosion lle roedd meddygon wedi cofnodi gwybodaeth ond nad oeddent wedi llofnodi na phrintio'u henwau na'u swyddogaeth. Mae'n ofynnol yng nghanllawiau Arfer Meddygol Da³ : Maes 1 Adran 21 bod meddygon yn llofnodi a phrintio'u henwau a'u swyddogaeth.

Argymhelliad

Mae angen i feddygon lofnodi, printio a nodi eu swyddogaeth wrth wneud cofnodion yn nodiadau cleifion.

Roedd gan y staff ddealltwriaeth dda o'r system gwyno a rhoddwyd enghreifftiau inni gan reolwr y ward o'r dulliau a ddefnyddir i gyfathrebu â

² Siart arsylwi â chod lliw yw'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol a ddefnyddir mewn ysbytai i gofnodi data clinigol rheolaidd ac olrhain cyflwr clinigol claf.

³ *Arfer Meddygol Da* yw'r canllawiau ar ddyletswyddau meddyg sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

chleifion sydd wedi mynegi pryderon. Gwelsom ganllawiau ar sut i wneud cwyn neu leisio pryder ar yr hysbysfwrdd yn y ward. Ni fynegwyd unrhyw faterion o bryder gan bobl tra roeddem ar y ward.

Roedd pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn enw a oedd yn cynorthwyo â chyfathrebu oherwydd bod pob claf yn ymwybodol o raddfa ac enw'r aelod o staff a oedd yn ymgymryd â'i ofal.

Parchu pobl

Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus bob amser, ac mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn.

Gwelsom fod gofal nyrsio'n cael ei ddarparu gyda thosturi ac empathi i'r cleifion.

Gwelsom lawer o enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar a pharchus rhwng yr aelodau o staff a'r cleifion. Mae gan bob claf ei ystafell ei hun a chyfleusterau *en-suite* a gwelsom y staff yn ystyried gallu'r claf ac yn parchu urddas gan gau'r drysau cyn iddynt ddechrau rhoi gofal personol neu nyrsio. Roedd agweddau'r staff yn gwrtais ac yn foesgar trwy'r amser.

Dywedodd y staff wrthym, a gwelsom enghreifftiau, lle roedd cyfrinachedd yn cael ei gynnal trwy drafod unrhyw faterion personol mewn ystafell gynghori breifat, trwy siarad yn ochelgar y tu ôl i ddrysau caeedig neu drwy ddefnyddio swyddfa rheolwr y ward.

Hybu annibyniaeth

Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i fanteisio i'r eithaf ar eu gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Roedd y cleifion yn cael eu hannog a'u cefnogi i adennill annibyniaeth cyn gynted â phosibl, gan ystyried gallu corfforol a meddyliol unigol.

Gwelsom dystiolaeth o'r cleifion yn cael eu hannog i symud o gwmpas; naill ai'n eistedd mewn cadair neu'n cerdded â chymorth i'r tŷ bach, ar ôl iddynt dderbyn eu llawdriniaeth. Gwelsom hefyd un claf yn cael ei annog a'i gefnogi i weinyddu meddyginiaeth ei hun trwy bigiad, i hyrwyddo lles ac i hwyluso'r posibilrwydd o'i ryddhau'n gynnar.

Perthynas ag eraill

Rhaid annog pobl i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau a datblygu perthnasau â phobl eraill yn unol â'u dymuniadau.

Ni arolygwyd 'Perthnasau' ar yr achlysur hwn.

Gorffwys, cysgu a gweithgareddau

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwys a chysgu.

Roedd amgylchedd y ward yn ffafriol ar gyfer gorffwys a chysur y cleifion gan gynnwys ystafelloedd gwely unigol a chyfleusterau *en-suite*.

Gwelsom fod nifer digonol o glustogau a blancedi ar gael. Roedd y troli dillad gwely wedi ei stocio'n dda. Mae hyn yn golygu y gall cleifion ddefnyddio dillad gwely ychwanegol yn ôl y gofyn i sicrhau eu bod yn gyfforddus.

Nid oedd unrhyw amser gorffwyso neilltuedig yn ystod y diwrnod ond dywedodd y cleifion eu bod yn gallu cysgu neu'n gorffwys pan oedd arnynt eisiau. Roedd y ward, er bod yn brysur, yn dawel, yn ddigynnwrf ac yn ffafriol ar gyfer gorffwys.

Roedd teledu ym mhob ystafell ar gyfer y cleifion yr oedd well ganddynt gadw'n brysur wrth iddynt wella.

Sicrhau cysur a lleddfu poen

Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac mor ddi-boen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn rhydd rhag poen, fodd bynnag, nid oedd y ward yn defnyddio graddfa mesur poen ar gyfer pob claf.

Er i'r cleifion ddweud wrthym eu bod yn rhydd rhag poen ac er i ni weld tystiolaeth o reoli poen yn dda, ni welsom unrhyw ddefnydd o raddfa mesur poen i fesur effeithiolrwydd meddyginiaeth trwy'r geg. Dywedodd y staff wrthym fod graddfa mesur poen ar gyfer cleifion sy'n defnyddio pwmp meddyginiaeth ond nid ar gyfer cleifion sy'n cymryd meddyginiaeth trwy'r geg.

Argymhelliad

Mae angen i'r ward ddefnyddio graddfa mesur poen ar gyfer pob claf, waeth sut maent yn lleddfu poen.

Glendid personol, ymddangosiad a gofal traed

Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.

Ar yr achlysur hwn, ni arolygwyd hylendid personol, ymddangosiad na gofal traed.

Bwyta ac yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n bodloni eu gofynion maethol a phersonol, a dylid rhoi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Roeddem yn fodlon bod pobl yn derbyn digon o faeth a dŵr.

Dywedodd pob claf fod y bwyd yn dda. Roedd y prydau a weinwyd yn ymddangos yn flasus. Gweinwyd diodydd poeth a byrbrydau yn ystod y dydd.

Gan mai ward llawfeddygaeth ddydd yw hon, ni allai'r cleifion ddewis eu pryd o fwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag, gwelsom fod dewis da ar gael ac roedd dwy gegin ar y ward a oedd yn gallu gweinyddu byrbrydau ar unrhyw adeg yn ystod y dydd ar gyfer y cleifion nad oeddent am gael pryd o fwyd poeth.

Gwnaethom arsylwi ar amser pryd o fwyd a chadarnhau bod y staff gwasanaeth gwesty yn gweinyddu'r bwyd. Gwnaed hyn â pharch ac amynedd. Dywedwyd wrthym hefyd fod y bwyd yn cael ei anfon yn uniongyrchol i'r ward heb stopio yn wardiau eraill i leihau croes-heintio ac i helpu i reoli heintiau. Roedd dewis o faint y pryd o fwyd a rhoddodd nyrsys y ward hambyrddau bwyd i'r cleifion a oedd yn dal i fod yn y gwely. Roedd man bwyta ar gyfer y cleifion nad oeddent am fwyta yn eu hystafelloedd gwely. Gwelsom fod y cleifion yn mwynhau'r amser bwyd.

Iechyd a hylendid y geg

Rhaid cefnogi pobl i gadw eu cegau'n iach ac yn gyfforddus, a'u dannedd a'u deintgig yn rhydd rhag poen, er mwyn eu galluogi i fwyta'n dda a rhwystro problemau cysylltiedig.

Ar yr achlysur hwn, ni arolygwyd iechyd a hylendid y geg.

Anghenion toiled

Rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon yn ôl yr angen, gan ystyried preifatrwydd ac unrhyw anghenion penodol.

Ar yr achlysur hwn, ni arolygwyd anghenion toiled.

Atal briwiau pwyso

Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Ar yr achlysur hwn, ni arolygwyd atal briwiau pwyso.

Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gall y cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ar adeg yr arolygiad. Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth effeithiol a gwaith tîm da. Roedd y staff nyrsio yn bodloni'r safonau gofynnol ac roedd y staff yn deall sut i drosglwyddo problemau i lefel uwch pe baent yn codi.

Lefelau staffio, cymysgedd sgiliau, ac atebolrwydd proffesiynol

Mae'r egwyddorion arweiniol ar gyfer staff nyrsio a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru yn nodi na ddylai mwy na saith claf gael eu pennu i bob nyrs gofrestredig ar ward feddygol yn ystod y dydd. Er mai ward lawfeddygaeth yw hon, ar ddiwrnod yr arolygiad cafodd safonau eu bodloni.

Roedd rheolwr y ward ar ddyletswydd pan gyrhaeddodd ni ac fe'i gwelsom yn cymryd rhan yn y tasgau o ddydd i ddydd ar y ward; gan gynorthwyo â gofal cleifion tra'n sicrhau bod y rhestr ar gyfer theatr yn gyfredol ac yn gywir. Dywedodd wrthym ei bod yn llwyddo i gynnal ei hamser rheoli neilltuedig yn gyffredinol.

Dywedwyd wrthym fod lefelau salwch yn y ward yn dderbyniol a bod trosiant yn isel iawn. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn gofal gan dîm o staff cydlynol, sefydledig.

Roedd atebolrwydd proffesiynol clir ar waith; rheolwr ward/dirprwy rheolwr yn gyfrifol; dau dîm o nyrsys yn gofalu am gleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt a gweithiwr cymorth gofal a oedd yn gweithio o dan reolaeth y nyrs. Fodd bynnag, roedd ethos cynhwysol iawn yn amlwg iawn â phob lefel o staff yn cael eu cynnwys yn y gwaith o redeg y ward. Er enghraifft, roedd y gweithiwr cymorth gofal yn gyfrifol am gynnal a diweddarau'r croesau diogelwch⁴ (rhan o'r fenter 1000+ o Fwydau) ar gyfer y ward.

Roedd yn amlwg bod rheolwr y ward a'r uwch nyrs yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod anghenion iechyd, diogelwch a lles y cleifion yn cael eu diwallu.

⁴Nod yr ***Ymgyrch 1000 o Fwydau*** yw gwella diogelwch cleifion a gwella ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Dangosodd sgysiau ag aelodau eraill o dîm y ward fod dull rheoli agored a didwyll ar waith sy'n annog aelodau o staff i leisio unrhyw bryderon am y gofal a ddarperir. Fe'n hysbyswyd hefyd gan y staff a'r cleifion eu bod yn gallu gweld rheolwr y ward, y dirprwy a'r uwch nyrs yn aml. Cadarnhaodd arsylwadau cyffredinol yr ymdrechion a wnaed gan y tîm cyfan o staff i gefnogi cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a thrugarog, yn ystod yr arolygiad hwn.

Systemau effeithiol ar gyfer trefnu gofal clinigol

Roedd gan y ward gapasiti ar gyfer 26 o gleifion, gan gynnwys 14 o gilfannau troli ar gyfer cleifion cyn iddynt dderbyn llawdriniaeth ac roedd 12 o ystafelloedd *en-suite* ar gyfer cleifion ar ôl iddynt dderbyn llawdriniaeth. Roedd 16 o gleifion ar y ward ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd y cleifion nad oedd angen arnynt ddefnyddio gwely ar ôl eu llawdriniaeth, megis llawfeddygaeth ar y llaw, yn cael eu nyrsio mewn cadeiriau cyfforddus mewn man â digon o le ac a oedd yn awyrog ac yn lân.

Gwelsom ddull dyddiol wedi'i sefydlu'n dda iawn i ddarparu gofal a chymorth i'r cleifion. Er enghraifft, gwelsom fod pob un o'r tair nyrs gofrestredig wedi'u neilltuo i fannau gwahanol o'r ward. Roeddent yn derbyn cymorth gan weithwyr cymorth iechyd ac yn gweithio mewn partneriaeth ac eithrio yn ystod adegau penodol, megis gweinyddu meddyginiaeth. Roedd y nyrsys cofrestredig hefyd yn ymgymryd â rowndiau o'u cleifion eu hunain unwaith bob dwy awr o leiaf ac yn amlach yn ôl yr angen.

Roedd lefelau clir o atebolrwydd a chyfathrebu da rhwng y nyrsys cofrestredig a'r cynorthwywyr gofal iechyd.

Gwelsom y cyfnod trosglwyddo gofal cleifion o un sifft i'r nesaf ac roedd y staff yn gwneud hyn yn y man tawel y ward. Roedd y staff yn ysgrifennu eu nodiadau trosglwyddo eu hunain. Gwnaethom drafod y posibilrwydd o ddefnyddio taflenni trosglwyddo electronig â rheolwr y ward, oherwydd roeddent yn barod yn defnyddio'r rhestr theatr a oedd yn cofnodi nifer helaeth o fanylion pob claf. Byddai hyn yn rhoi'r un wybodaeth i bob aelod o staff yn sylfaenol ac yn caniatáu i unrhyw newidiadau yn ystod y dydd gael eu cofnodi â llaw.

Hyfforddiant a datblygiad

Roedd rhaglen gadarn iawn o hyfforddiant staff ac er na wnaethom adolygu'r cofnodion hyfforddi'n fanwl yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom drafod pynciau hyfforddi a diwrnodau hyfforddi diweddar â'r staff. Roedd pawb yn fodlon ar gynnwys ac amrywiaeth y pynciau a astudiwyd. Roedd rhai o'r staff yn mynychu hyfforddiant am Amddiffyn Plant ar ddiwrnod yr arolygiad.

Ymdrin â chwynion a phryderon

Dangosodd sgysiau â'r staff eu bod yn ymwybodol o weithdrefnau cwyno'r GIG a adwaenir fel 'Gweithio i Wella'⁵.

Gwnaethom drafod sut y caiff y wybodaeth ei rhannu rhwng y staff ar y ward a'r bwrdd iechyd/ysbyty ehangach i sicrhau bod y staff wedi dysgu o unrhyw bryderon a fynegwyd yn y gorffennol. Gwelsom fod systemau cadarn ar waith yn y ward a'r bwrdd iechyd, gan gynnwys cyfarfodydd uwch nyrsys a chyfarfodydd staff y ward misol lle roedd unrhyw faterion sy'n ymwneud â phryder neu welliannau mewn gofal cleifion yn cael eu trafod.

⁵ 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid nodi a monitro risgiau a'u lleihau neu eu hatal lle'n bosibl.

Roedd diogelwch a lles y cleifion yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn yn weithredol. Roedd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio ystod o asesiadau risg, creu amgylchedd diogel ar y ward, a darparu cyfarpar glân sydd wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol

Roedd y staff yn dangos eu hymwybyddiaeth o sut i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol i'w cefnogi wrth iddynt ofalu am y cleifion.

Dangosodd trafodaethau â staff eu bod yn ymwybodol o sut i gael mynediad at wybodaeth am bolisiau a chanllawiau cyfredol ar fewnrwyd yr ysbyty. Gwelsom hefyd amrywiaeth o ffolderi ar silff yn y ward er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal i'r cleifion.

Nid oedd y ward yn defnyddio llawer o'r bwndeli Cymru Gyfan⁶ oherwydd hyd arhosiad byr y cleifion. Fodd bynnag, gwelsom y staff yn defnyddio rhai o fwndeli priodol megis y bwndel 'venflon' a gofal caniwla. Roeddent yn cael eu harchwilio'n fisol gan reolwr y ward a'u hadolygu gan yr uwch nyrs.

Systemau effeithiol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol

Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd i gleifion yn seiliedig ar amcanion, safonau a gwerthoedd sefydliadol clir. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd y gellid eu gwella; cadw cofnodion yn benodol.

Canfuwyd gennym nad yw staff y ward yn cofnodi gwybodaeth ddiweddar (dangosyddion ansawdd) i helpu'r tîm i wirio a ydynt yn darparu gofal i'r cleifion mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y ward a

⁶ Ymyriadau a dulliau wedi eu cytuno ar draws Cymru Gyfan neu Fwrdd Iechyd i ymdrin ag agweddau penodol ar ofal iechyd yw bwndeli. Mae'r rhain yn sicrhau arfer nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyson.

gymerodd gyfrifoldeb dros y diffyg cofnodi gwybodaeth. Dywedodd wrthym nad oedd hi'n gallu mynychu'r sesiwn hyfforddi ac felly nad oedd hi'n fedrus i ddefnyddio'r System Metrigau⁷ Gofal o gofnodi, archwiliad electronig yr hanfodion gofal na'r System Datix⁸. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw gofnod electronig o ddigwyddiadau, digwyddiadau a osgowyd o drwch blewyn na chanlyniadau archwilio. Gwelsom, fodd bynnag, dystiolaeth eu bod wedi cael eu cynnal ac roedd cofnodion ar bapur ar gael i ni eu gweld.

Argymhelliad

Mae angen i reolwr y ward fynychu hyfforddiant mewn cadw cofnodion electronig ar frys.

Canfuwyd gennym nad yw safbwyntiau cleifion a pherthnasau ar y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd yn cael ei dderbyn yn ffurfiol yn rheolaidd ar y ward. Yn hytrach, cesglir y wybodaeth hon yn flynyddol i helpu i hysbysu (gwiriad) archwiliad y bwrdd iechyd, a gynhaliwyd mewn perthynas â chyflenwi 'Hanfodion Gofal' i'r cleifion.

Mae gwybodaeth am ansawdd a diogelwch ar gael yn rhwydd i'r staff, y cleifion a'r perthnasau, trwy hysbysfyddau yn y coridor yn arwain at y gwelyau.

Rheoli meddyginiaeth

Er cafodd meddyginiaeth ei gweinyddu mewn modd amserol, gwelsom fod rhai o'r Siartiau Rhoi Meddyginiaethau yn anghyflawn ac nad oedd gwiriadau cyffuriau'n gadarn.

Gwnaethom ofyn pa mor aml mae fferylllydd yr ysbyty'n ymweld â'r ward i gynnal archwiliadau o'r feddyginiaeth a dywedwyd wrthym fod aelod o'r tîm fferyllfa'n ymweld â'r ward bob tri mis. Gwnaethom edrych ar hapsampl o'r Siartiau Rhoi Meddyginiaethau a chanfod bod rhai o'r llofnodion rhagnodi'n gwbl aneglur a bod therapi ocsigen yn cael ei ragnodi'n aml gan ddefnyddio

⁷ Mae Metrigau Gofal yn system lle caiff gwybodaeth am rai agweddau ar ofal eu monitro i fesur ansawdd. Mae enghreifftiau'n cynnwys cwmpïadau a manau pwyso. Mae metrigau gofal yn rhan o ddangosfwrdd clinigol o ddangosyddion ansawdd.

⁸Dull a ddefnyddir yn y GIG i gofnodi, ymchwilio a dadansoddi achosion digwyddiadau andwyol a digwyddiadau a osgowyd o drwch blewyn yw DATIX.

sticeri wedi'u hargraffu ymlaen llaw ac felly nid oeddent wedi cael eu llofnodi gan feddyg.

Argymhelliad

Rhaid i'r holl feddyginiaeth wedi'i rhagnodi gael ei llofnodi gan ymarferydd wedi'i gymhwyso'n briodol cyn ei gweinyddu i glaf.

Gwnaethom ofyn i weld y llyfr cofnodi cyffuriau a reolir a chanfod ei fod yn cael ei gadw yn y cwpwrdd cyffuriau sydd dan glo. Er bod y cofnodion yn y llyfr yn glir ac yn ddarllenadwy, gwelsom fod dim ond un llofnod mewn rhai achosion ar gyfer gweinyddu cyffuriau a reolir. Gwelsom hefyd fod cyffuriau'n cael eu gwirio dair gwaith yr wythnos. Mae angen i staff sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefn weithredol safon y byrddau iechyd ar gyfer cyffuriau a reolir. Mae angen diweddarau rhestr llofnodion y staff hefyd. Gwnaethom drafod prosesau cofnodi cyffuriau a oedd wedi cael eu dinistrio, a oedd yn cael eu cofnodi yn y llyfr cofnodi cyffuriau a reolir ar adeg yr arolygiad. Gwnaethom awgrymu defnyddio llyfr dinistrio cyffuriau a reolir annibynnol. Roedd rheolwr y ward yn derbyn hyn.

Argymhelliad

Rhaid i ddau aelod o staff sydd wedi'u cymhwyso'n briodol fod yn dyst i'r dasg o weinyddu cyffur a reolir. Dylid diweddarau rhestr llofnodion y staff ar gyfer atebolrwydd a gweinyddu cyffuriau a reolir yn ddiogel.

Gwnaethom wirio oergell y feddyginiaeth a gweld nad oedd hon dan glo. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn i sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd cofnod o dymheredd yr oergell ar gael ac roedd y rhain o fewn yr ystod ofynnol ar gyfer storio meddyginiaeth.

Roedd system dda ar waith gleifion fynd â meddyginiaeth gartref, lle roedd y meddyg llawfeddygol a oedd yn gyfrifol am ofal y cleifion yn ysgrifennu'r presgripsiwn cyn iddynt ddychwelyd i'r ward o'r theatr. Roedd hyn yn hwyluso cynllun rhyddhau amserol ac esmwyth.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno eu Cynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd nodi'n eglur pryd a sut y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Ward Rhymni, Ysbyty Ystrad Fawr, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau / unedau eraill y bwrdd iechyd.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar urddas a gofal hanfodol.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Ystrad Fawr

Ward/Adran: Ward Rhymni

Dyddiad yr Arolygiad: 20 Ionawr 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	Ni nodwyd unrhyw argymhellion ar yr achlysur hwn.			
	Cyflenwi Hanfodion Gofal			
7	Dylai rheolwr y ward ddatblygu system i archwilio dogfennaeth y cleifion i sicrhau bod yr ansawdd a'r safonau'n foddhaol.	Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr Archwiliadau Ymddyried Mewn Gofal wedi'u cynllunio'n fisol. Mae archwiliadau hyn yn cael eu cynnal gan Uwch Nyrs ac mae'r canlyniadau ar gael ar yriant electronig Gofal Wedi'i Drefnu.	Helen Williams	Archwiliadau Ymddyried Mewn Gofal wedi'u strwythuro'n fisol

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
7	Mae angen i feddygon lofnodi, printio a nodi eu swyddogaeth wrth wneud cofnodion yn nodiadau cleifion.	Mae hyn wedi cael ei rannu gyda phob Arweinydd Clinigol ar gyfer yr ardal. Gofynnwyd i'r argymhelliad hwn gael ei rannu â'u timau meddygol.	Helen Williams	Chwefror 2015
9	Mae angen i'r ward ddefnyddio graddfa mesur poen ar gyfer pob claf, waeth sut maent yn lleddfu poen.	Ers cwblhau'r Archwiliad, mae rheolwr y ward wedi cysylltu ag adnoddau'r tîm Rheoli Poen. Mae cynllun i ddefnyddio graddfeydd rheoli poen gweladwy wedi cael ei drafod a'i weithredu.	Helen Williams	Mawrth 2015
Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
16	Mae angen i reolwr y ward fynychu hyfforddiant mewn cadw cofnodion electronig ar frys.	Bydd hyfforddiant adnewyddu wedi'i gynllunio ar gyfer rheolwr y ward yn cael ei gynnal ar brynhawn Mawrth 23 gydag Arweinydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer Hanfodion Gofal.	Helen Williams	Mawrth 2015
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
17	Rhaid i'r holl feddyginiaeth wedi'i rhagnodi gael ei llofnodi gan ymarferydd wedi'i gymhwysu'n briodol cyn ei gweinyddu i glaf.	Fel rhan o'r cyfarfodydd ward rheolaidd, ddydd Llun 9 Mawrth, cafodd y staff eu hysbysu o bolisi Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Gofynnwyd i bob aelod o staff ddarllen y polisi a llofnodi a nodi eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall.	Helen Williams	Mawrth 2015
17	Rhaid i ddau aelod o staff sydd wedi'u cymhwysu'n briodol fod yn dyst i'r dasg o weinyddu cyffuriau a reolir. Dylid diweddarau rhestr llofnodion y staff ar gyfer atebolrwydd a gweinyddu cyffuriau a reolir yn ddiogel.	Fel uchod	Helen Williams	Mawrth 2015

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: